# *Owen Rhoscomyl (1863-1919) a 'Rhwysg Hanes Cymru'**

gan Hywel Teifi Edwards, MA

Yn 1905, pan gyhoeddodd Owen Rhoscomyl ei gyfrol fanerog ar gyfer plant ysgol, *Flame-Bearers of Welsh History*, yr oedd gan y Parchg. A.W.Wade-Evans (1875-1964) a J.Frederick Rees, BA (1883-1967), erthyglau yn rhifynnau Ebrill ac Awst o *The Welsh Leader* yn gresynu iddynt gael addysg ysgol a choleg na roesai ddim gwerth ar hanes Cymru.[1] Yr oedd Wade-Evans i ddatblygu'n hanesydd safonol ac yr oedd J.Frederick Rees, ar ôl cyfnod yn ddarlithydd hanes yng Ngholeg Prifysgol Bangor a phrifysgolion Belfast a Chaeredin, i'w godi'n brifathro ei hen goleg yng Nghaerdydd am ugain mlynedd o 1929 ymlaen. Fe fu croniclo a dehongli hanes eu gwlad yn genhadaeth i'r ddau ohonynt.

Tystiai Wade-Evans na chawsai yn ystod un mlynedd ar bymtheg o addysg a'i dug o ysgol elfennol yng ngogledd sir Benfro i Goleg Iesu yn Rhydychen, yr un wers ar nac iaith, llên na hanes Cymru. Ar sail ei ymwybod â'i golled gallai ddadlau mai gartref, 'with his own patria... which is by no means, as ignorantly supposed, a mere adjunct of England' yr oedd i'r Cymro a'r Gymraes ddechrau dysgu am ac amgyffred gwareiddiad y Gorllewin. Heb os, meddai: 'The realization of Welsh nationality in his own experience, is for the Welsh child the royal road to the realizing of the wider life of Europe, which again, in its turn, leads directly to a revelation of the human spirit, on a scale hitherto without precedent.' Gellid meddwl y byddai callineb y farn honno'n rhy amlwg i'w wfftio yng Nghymru 1905, ond nid felly. Protestiodd J.Frederick Rees yntau yn erbyn israddio hanes Cymru a'i drin fel petai'n ddim mwy nag 'a disturbing cause that forces the English central power to depart for a moment from its path of development.' Ffaith safadwy yn ôl Rees oedd ei bod yn annichon i'r Cymry dyfu'n ddinasyddion byd heb iddynt yn gyntaf gael gafael ar ystyr eu hanes hwy eu hunain.[2]

---

* Erthygl wedi ei seilio ar ddarlith a draddodwyd mewn cyd-gyfarfod o'r Anrhydeddus Gymdeithas, Fforwm Cymry Llundain a Chymdeithas y Gwyneddigion, 12eg Mehefin 2006, yng Nghanolfan Cymry Llundain, Gray's Inn Road, gyda'r Athro Prys Morgan yn y gadair.

[1] A.W.Wade-Evans, 'The Teaching of Welsh History in Welsh Schools', *The Welsh Leader*, 6 April 1905, 449-51;

[2] J.Fred Rees, BA, 'The History of Wales: Its Nature', *The Welsh Leader*, 17 Aug. 1905, 764-5; idem., 'The History of Wales: Its Value, ibid., 24 Aug.1905, 774-5.

Yn dilyn daeargryn y Chwyldro Ffrengig fe fu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dyst i ffrwydriad mewn hanesyddiaeth ledled Ewrop ac America – hanesyddiaeth a sbardunwyd gan egnïon cenedlaetholdeb ac imperialaeth ac a lefeiniwyd gan arwraddoliaeth remp. Yn Lloegr oes Victoria roedd yr hanesydd i'w orseddu'n ddathlwr balchderau cenedlaethol ac yr oedd bod ganddi hanes 'gwerth ei adrodd' gyda'r prawf sicraf o hawl cenedl i'w chymryd o ddifrif. Fe wyddai Wade-Evans a Rees hynny'n dda yn 1905. Roedd bod heb hanes wedi'i ysgrifennu gan haneswyr wrth eu proffes yn 'warth' ar bobol a honnai fod yn genedl, a chawsai Cymry oes Victoria fwy na digon o'u blino gan ofn eu digyfrifedd. Dyna pam yr ymroes O.M. Edwards yn ei lyfrau a'i gylchgronau, yn enwedig yn *Cymru* (1891-1920), i roi i hanes ei wlad le amlwg a'i gyflwyno ar wedd ramantaidd i swyno ac ennyn teyrngarwch ei gydwladwyr. Dyna pam, yn 1905, yr edliwiodd i senedd Prifysgol Cymru iddi wneud popeth yn ei gallu i atal astudio hanes a llên y wlad. Nid oedd hynny'n ddim llai nag ymgais i ddileu hunaniaeth y genedl.[3]

Nid, wrth gwrs, na fu cyhoeddi llyfrau ar hanes Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gellir nodi, er enghraifft, gyhoeddiadau J.H.Parry, Thomas Price (Carnhuanawc), Jane Williams (Ysgafell), Angharad Llwyd, R.W.Morgan, Gweirydd ap Rhys a'r Dr. Thomas Nicholas. Dengys rhaglenni llu o eisteddfodau, lleol a chenedlaethol, fod yr awydd i beri i hanes Cymru ffrwytho'n llenyddiaeth berswadiol yn rhywbeth byw iawn ac y mae'r wythnosolion a'r cyfnodolion yn frith o ramantau hanesyddol y tynnodd y Dr.Tedi Millward ein sylw at eu harwyddocâd yn *Cenedl o Bobl Ddewrion* (1991). Yn wir, gyda dyfodiad y solo Gymreig-Gymraeg ar ddechrau'r 1870au roedd gwrhydri glewion Cymru i atseinio drwy'r wlad – nid yw eto wedi distewi – ac fe enillodd Llywelyn a Glyndŵr boblogrwydd bocs siocled, diolch i'r gantata a ddaeth i fri o'r 1860au ymlaen. Eto i gyd, y mae stori drist yr ymdrech i goffáu Llywelyn yn wyneb difrawder cenedl na chredai fod y Llyw Olaf yn werth gwario swllt arno, yn brawf sicr nad oedd fawr o gymod rhyngddi a'i gorffennol.[4] Nid codi bwganod oedd bwriad y Dr. Isambard Owen pan ddywedodd gerbron y Cymmrodorion yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1886, fod hanes Cymru i bob pwrpas heb gynulleidfa: 'The history of the Welsh people has become an almost forgotten study among its members. I do not know if in a single school in all Wales instruction in it is at this day given.'[5] Fe fu i Isambard Owen ran flaenllaw yn llunio siarter Prifysgol Cymru ac fe'i cafodd ei hun yn ddirprwy i Arglwydd Aberdâr a benodwyd yn Ganghellor cyntaf y brifysgol yn 1894. Buasai'n dda clywed sgwrs rhyngddo ef ac O.M.Edwards ar fater digowntio hanes eu mamwlad gan Brifysgol Cymru.

---

3 *Cymru*, xxix (1905), 100.

4 Hywel Teifi Edwards, 'Coffáu Llywelyn', *Codi'r Hen Wlad yn ei Hôl, 1850-1914* (Llandysul, 1989), 187-237.

5 *National Eisteddfod Association Annual Report*, 1886, 32.

Gwaeth na dim oedd fod Saeson collfarnol, yn absenoldeb honedig Cymry atebol, yn mynd ati i drin hanes Cymru yn nawddoglyd, onid yn wir yn ysbryd dirmyg y cofnod hwnnw yng ngolygiad 1871 o'r *Encyclopaedia Britannica* – 'For Wales, see England.' Mewn ysbryd rhoi cardod i gardotyn yr ysgrifennodd B.B.Woodward, BA, *The History of Wales from the Earliest Times* (1853), gan frolio rhagoriaeth yr astudiaeth ar ddim a gawsid cyn hynny. Y ffaith fod Cymru yn gymdoges drws nesaf i Loegr a bod iddi oherwydd hynny le atodol yn hanes Lloegr a gymhellodd Woodward i ysgrifennu ei gyfrol, ac am yr un rheswm yr aeth yr hilgi hwnnw o hanesydd, E.A.Freeman, i'r afael â'r Cymry yng nghynhadledd y Cambrian Archaeological Association yn y Fenni yn 1876. Roedd y Cymry trwy anwybyddu eu hanes, yn ei gwneud hi'n anodd i Freeman a'i debyg adrodd hanes Lloegr yn gyflawn, ac roedd angen Cymro call, gwrthrychol, amhleidiol – hynny yw, hanesydd hollol wahanol i Freeman ei hun – i ysgwyddo'r cyfrifoldeb. 'England expects' eto fyth. Ac os am enghraifft arall o'r un agwedd ar waith fel y tynnai'r bedwaredd ganrif ar bymtheg tua'i diwedd, ni raid ond darllen cyfrol J.A.Froude, *The English in Ireland in the Eighteenth Century* (1887), lle rhoir geirda i'r Cymry am dderbyn eu hystad israddol ac ymddwyn yn llariaidd Brydeingar, tra ymderfysgai'u cefndryd ffôl yn Iwerddon. [6]

Holl bwynt y rhagymadroddi hwn yw mai gafael lac oedd gan drwch y Cymry ar hanes eu gwlad ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Pa mor boblogaidd bynnag fuasai *Drych y Prif Oesoedd* Theophilus Evans er ei gyhoeddi gyntaf yn 1716, nid oedd erbyn 1900 yn llyfr hanes i ateb gofyn cenedl a welsai chwyldroi ei bywyd yn llwyr yn ystod oes Victoria. Y mae'n rhaid, wrth gwrs, fod i ganran o'r Cymry ymwybod o fath â'u gorffennol ond cyraeddasai'r genedl ddechrau'r ugeinfed ganrif heb hanesyddiaeth academaidd gydnabyddedig na hanesyddiaeth boblogaidd, yn farddoniaeth a nofel a drama, i ymgolli ynddi. Ac i'r graddau fod iddynt ymwybod o fath â'u hanes y mae'n sicr na wyddent sut i ymelwa arno, sut orau i'w droi'n gyflwyniadau graffig a wnâi gyffroi dychymyg ac esgor ar wladgarwch. Roeddent eto heb ddysgu sut i ddefnyddio hanes er eu mantais hwy fel Cymry.

Gwyddai O.M.Edwards hynny ac fel y dywedwyd roedd yn daer dros ateb y gofyn. Ef a sgriptiodd 'Cambria', y gantawd a gyfansoddwyd gan Joseph Parry i droi hanes Cymru yn destun cân yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno yn 1896, ac ef oedd awdur *Wales*, cyfrol gomisiwn ar gyfer cyfres boblogaidd 'Story of Nations', a gyhoeddwyd yn 1901. Roedd y gwynt fel petai'n graddol droi o blaid gyrru stori Cymru ar led. Ac yna, yn 1905, pan oedd 'Diwygiad Evan Roberts' yn para'n gynnwrf yn y tir, cyhoeddodd Owen

---

[6] Hywel Teifi Edwards, *Gŵyl Gwalia. Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Oes Aur Victoria 1858-1868* (Llandysul, 1980), 313-15; idem., *Codi'r Hen Wlad yn ei Hôl, 1850-1914*, 157-60.

Rhoscomyl *Flame-Bearers of Welsh History* – cyfrol ac ynddi luniau lliw a'm daliodd i, er prinned fy Saesneg, pan oeddwn grwt yn ysgol fach Llanddewi Aber-arth drigain mlynedd a mwy yn ôl bellach.

Flynyddoedd lawer yn ddiweddarach dyma ailddarganfod yr Owen Rhoscomyl hwnnw yn rhith hanesydd 'Rhwysg Hanes Cymru', y 'National



Pageant of Wales' a gynhaliwyd gyda sêl bendith yr Ardalydd Bute yng ngerddi Sophia, Caerdydd lle rhôi'r castell ffocws i'r perfformiadau rhwng 26 Gorffennaf – 7 Awst yn y flwyddyn 1909. O ran maint uchelgais a lluosogrwydd y cast, saif Pasiant 1909 hyd heddiw ar ei ben ei hun fel cynhyrchiad y bwriadwyd iddo wneud fersiwn o hanes Cymru yn brofiad diangof i'r pum mil o berfformwyr a'r degau o filoedd mwy a ddaeth i'w gwylio. Pwy oedd yr Owen Rhoscomyl hwn? O ble y daethai? A beth a fynnai ei basiant ddweud wrth y Cymry ac wrth y Saeson uwchraddol?

Y gwir amdani yw fod bywyd Rhoscomyl yn basiant ynddo'i hun. Fe fu byw'n dymhestlog ddewr ar hyd ei oes – nid oedd ond 56 oed pan fu farw yn 1919 ar ôl pedair blynedd yn ymladd yn y Rhyfel Mawr – ac er mai bylchog yw'n gwybodaeth o hyd am hanner cyntaf ei fywyd, y mae digon y gellir bod yn siŵr ohono, diolch i ddyrnaid o lythyrau yn y Llyfgell Genedlaethol, i adroddiadau'r wasg ar ôl ei farw, i erthygl neu ddwy, ac i lyfryn gwerthfawr Bryn Owen, *Owen Roscomyl and the Welsh Horse* (1990), i fraslunio hynodrwydd ei berson a'i yrfa yn y ddarlith hon.[7]

Fe'i ganwyd yn Southport, 6 Medi 1863, a'i fedyddio yn Robert Scourfield Mills. Ar 16 Hydref, ychydig dros fis ar ôl ei eni, yn dilyn damwain bu farw ei dad, Sais o'r enw Robert Mills yr oedd ei wreiddiau yn Rochdale, ac ar ôl iddi ailbriodi a symud i Fanceinion, bu farw hefyd ei fam, Jane Ann Scourfield, merch Joseph Scourfield, ar 5 Mawrth 1869. Fe'i maged wedyn gan ei fam-gu ar ochr ei fam, sef Ann Scourfield (née Jones) a briodasai Joseph, mab i'r Cyrnol Scourfield o sir Benfro, a dylanwad yr Ann Jones hon a hanai o Dremeirchion yn sir Fflint a droes Robert Scourfield Mills gydag amser yn Arthur Owen Vaughan ac yn Owen Rhoscomyl. Fel Capten Arthur Owen Vaughan yr ymenwogodd fel milwr di-ail. Fel Owen Rhoscomyl yr adwaenid yr awdur a'r ysgogwr balchder, a dyna'r enw arno yr wyf am ei arfer yn awr. (Math o anagram o'r enw bedydd yw Rhoscomyl wrth gwrs).

Ar lin ei fam-gu dysgodd y crwtyn am arwyr Cymru, Owain Glyndŵr yn bennaf yn eu plith, ac wrth wrando arni'n honni y gallai olrhain ei hach yn ôl at Dafydd, brawd y Llyw Olaf, a gigyddiwyd gan y 'Saeson' ar ôl ei ddal, y dechreuodd Rhoscomyl ymuniaethu'n ddychmyglon â'r Gymru arwrol yr oedd i ysgrifennu er ei chlod. Ni allwn ond galaru na wyddom fwy am y fam-

---

7 Papurau Arthur Owen Vaughan (Owen Rhoscomyl) a'i ferch, Olwen Vaughan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cyffesodd hi iddi losgi pentwr o ohebiaeth ei thad ar ôl i'w mam farw. Gw. hefyd T.Marchant Williams, 'Capt. Owen Vaughan (Owen Rhoscomyl)', *The Nationalist*, vol.2 (Feb.1909), 5-6; *The Western Mail*, 16 Oct. 1919,7; Bryn Owen, *Owen Rhoscomyl and the Welsh Horse* (Caernarfon, 1990); David Littler Jones, 'Who was Owen Rhoscomyl?', *Hel Achau*, 34, Awst 1991, 3-4; John H.Davies and Huw Price, 'A Hero fit for Wales', *Cambria*, 1, No.3, 1998, 24-30.

gu hon o Dremeirchion a wnaeth Gymro, yn sicr o ran ymwybyddiaeth os nad o ran rhugldder iaith, o Robert Scourfield Mills. Yn ôl David Littler Jones fe'i ganed 5 Tachwedd 1797 ac ymddengys iddi briodi deirgwaith – yr ail waith â Mormon, Gill wrth ei gyfenw, a aeth â hi cyn belled â Dinas y Llyn Halen. Yn wir, mae sôn iddi fynd i America ddwywaith cyn 1840 a dyfynnir o lythyr gan Rhoscomyl sy'n dweud iddo fod mewn lle ger Illinois 'where Granny lived and I stayed with people that knew and respected her.' Ta waeth, ar ôl ei marw hi yn 1879, pan oedd Rhoscomyl yn 16 oed, fe ddywedir iddo hwylio'n 'stowaway' ar long o Borthmadog am Rio de Janeiro – digwyddiad o'r fath sy'n rhoi cychwyn i'w ddwy nofel antur, *A Scout's Diary* (1908) a *Lone Tree Lode* (1913) – ac fe all eu bod o'r herwydd yn gwirio'r sôn am y modd y dechreuodd anturiaeth fawr ei fywyd. O hynny tan ddechrau Rhyfel y Böer yn 1899, Duw a ŵyr lle na bu a beth na wnaeth i gyd.

Yn llanc yn ne a gogledd America, enillodd ei ehofndra mewn ysgarmesoedd yn erbyn y brodorion enw iddo fel sgowt a chanddo ysfa batholegol i fod ar flaen pob rhuthr ac ynghanol y sefyllfaoedd peryclaf. Ef i'w gyd-sgowtiaid oedd 'The Kid' cyn bod sôn am 'Billy the Kid' ac am weddill ei oes fe fyddai'n ddyn cafalri tanbaid yn ffroeni brwydrau o hirbell: 'My life', meddai, 'has been spent from boyhood in wandering, stockriding, prospecting, hunting, scouting, and fighting wherever fighting was to be had.'[8]

Gwyddom drwy Bryn Owen ei fod yn aelod o'r 'Canadian Militia' erbyn 1885, iddo ddychwelyd i Brydain ac ymuno â'r fyddin, y '1st Royal Dragoons' yn 1887, iddo adael y fyddin yn 1890 am nad oedd dim yn digwydd a dechrau ysgrifennu ei storïau antur cyn iddo'n ddiweddarach ddychwelyd i America ac ymuno â 'Roughriders' Theodore Roosevelt i ymladd yn erbyn Sbaen yn Cuba. Y gwir yw na fyddwn mwyach fyth yn siŵr o'i fynd a dod carlamus rhwng 1879 a dechrau Rhyfel y Böer, ond y mae'r llythyr a ysgrifennwyd gan ei nith, Mrs Dorothy Stott, a drigai yn Esher, swydd Surrey, yn 1943 yn peri meddwl y rhoesai Rider Haggard, G.A.Henty a Rudyard Kipling ffortiwn fach am gael dweud ei stori. Yn ôl ei thystiolaeth hi, ar ôl i Rhoscomyl adael y fyddin yn 1890 'all his life was spent as a mixture of fighting and writing'. Mae fel darllen am ymladdwr a ddylasai fyw yn nyddiau glewion y Gododdin neu farchogion Arthur:

---

[8] *The Western Mail*, 16 Oct.1919,7; Papurau Owen Rhoscomyl, Ll.G.C., 9.

> He had his own men who fought under him and he helped several other countries – example, he was sent for to take the King and Queen of Servia to safety but arrived too late. He helped the young King of Portugal after the massacre of the King and Crown Prince. Then he fought for America in Cuba, from there he went to South Africa taking with him some of his men who fought with him as scouts all through the Böer War. There he took one name after another as the enemy learnt his identity.[9] Dyn mabinogaidd yn wir! Ac nid y lleiaf o ryfeddodau Cymru oes Victoria oedd bod Rhoscomyl a H.M.Stanley yn gyfoeswyr pan geisiai hi le iddi ei hun yn heulwen yr Ymerodraeth Brydeinig. Beth petai Rhoscomyl, yn ôl ei ddymuniad, wedi cael bod gyda Stanley pan siartiai hwnnw berfeddwlad Affrica rhwng 1887-89? Fe fyddai wedyn wedi gallu rhagflaenu Conrad, er na fyddai fyth wedi rhagori ar ei storiau.

Fe fu Rhyfel y Böer, 1899-1902, a defnyddio ymadrodd gwrthun ein dyddiau ni, yn 'rhyfel da' i Rhoscomyl, ac nid yw'n syn mai'r mwyaf poblogaidd o'i lyfrau, am ei fod wedi'i seilio ar ei ran yn y brwydro yno, oedd *Old Fireproof* a gyhoeddodd gyntaf yn 1906. Yn rhengoedd y 'Tigers', sef 'Rimington's Guides', rhyw 180 o wŷr meirch a ddisgrifiwyd fel 'non-regular Colonial Cavalry', a phedwar ugain ohonynt yn sgowtiaid, fe aeth ei ehofndra yn ddihareb. Ef a wisgai grafanc y llewpart dan fandyn ei gap yn brawf gweladwy o'i ddewrder anarferol – os nad annormal. Fe'i dyrchafwyd yn sarsiant ac yna, trwy gomisiwn, yn 'Squadron Commander Damant's Horse' a 'Wing Leader Canadian Scouts'. Enillodd ei gampau iddo'r DCM, ynghyd â theyrngedau gloyw gan y Cyrnol Rimington a'r Uwchfrigadydd Bruce Hamilton, a phan gyhoeddodd yr Uwchgapten Rankin *A Subaltern's Letters to his Wife* yn 1901, roedd yntau'r un mor ddibrin ei edmygedd ohono: 'He volunteered on every occasion for the most risky work, and he took a real pleasure in courting danger.' Roedd Rankin wedi'i gyfareddu gan yr 'olive-skinned, black-moustached dare-devil, with the round head and piercing eye of the true Celt.'[10] Beth pe gwyddai mai Sais oedd ei dad?

Ymddengys nad oedd dim yn rhy beryglus iddo. Fe ymserchodd yn un o ferched y Böeriaid ac ar 21 Rhagfyr 1900 fe'i priododd ar lan yr afon Vaal ynghanol storm o fwledi. Math o goncwest imperialaidd arall iddo yn enw Cymru, mae'n debyg, oedd priodi Catherine Lois de Geere. Roedd ef yn 37 oed a hithau'n ddeunaw:

---

[9] Papurau Owen Rhoscomyl Ll.G.C., 59.

[10] Bryn Owen, op.cit., 11-18; Lt.-Colonel Sir Reginald Rankin, *A Subaltern's Letters to his Wife* (London, 1901), 101-02.

> The minister wrote out a certificate which I kept, as my wife's people would destroy it if they found it on her. I had brought her out there because it would have been impossible to marry her in Vredefort unless we had been occupying that town.[11]

Wedi'r briodas dychwelodd y briodferch at ei theulu a chadwodd y gyfrinach, a phan derfynodd y rhyfel fe lwyddodd Rhoscomyl, er gwaethaf pob rhwystr, i'w dwyn yn ôl gydag ef i Gymru. Ar ôl cyfnod yn Fegla Fawr, tua milltir o'r Bermo, symudasant i Gaerdydd ac yna gwnaethant eu cartref yn Ninas Powys. Fe aned iddynt bedwar o blant a bu eu mam farw yn 45 oed yn 1927. Sawl nofel, tybed, sydd yn hanes y garwriaeth honno a'r briodas a seliwyd i gyfeiliant tanio'r gelyn? Y briodas, fe ddywedir, a'i cadwodd hi rhag trengu yn un o wersyll-garcharau Prydain. Rhaid bod Catherine Lois de Geere yn ddeunaw oed yn fenyw a hanner, gan fod Rhoscomyl pan ddaeth ar ei thraws eisoes, yn ei geiriau hi ei hunan, 'a hardened lover'.

Gartref yng Nghymru tyfodd ef yn ffigur cenedlaethol yn rhinwedd ei ymgyrchu dros sicrhau i'r wlad ddelwedd hunanhyderus, gadarnhaol. Yn dilyn cyhoeddi *Flame-Bearers of Welsh History* a chynnal 'Rhwysg Hanes Cymru' yn 1909, fe fu iddo ran allweddol yn ôl ei gyfaill, J.Glyn Davies (1870-1953), athro Celteg Prifysgol Lerpwl a bardd *Cerddi Huw Puw* (1923) a *Cerddi Edern* (1955), yn sicrhau arwisgo Edward yn Dywysog Cymru yng nghastell Caernarfon yn 1911. Yn wir, yn ôl J.Glyn Davies 'brilliant audacity' Rhoscomyl a dim arall a gyflawnodd y wyrth, er i'r 'mawrion' hawlio'r clod yn ei sgil.[12]

Ac yna, yn 1914, ychydig fisoedd cyn i'r Rhyfel Mawr ddechrau, wele Rhoscomyl yn rheolwr busnes a darparwr cyhoeddusrwydd i fenter ei gyfaill (a fu hefyd yn ymladd yn erbyn y Böeriaid), yr Arglwydd Howard de Walden (1880-1946) a ddaethai i fyw yng Nghastell y Waun yn 1911 yn llawn eiddgarwch dros lawnsio mudiad drama modern, Cymreig a Chymraeg. I'r perwyl hwnnw cynigiodd nifer o wobrau, canpunt yr un, i greu dramâu cyfoes eu hergyd ac yn Theatr Newydd, Caerdydd, 11-16 Mai 1914, fe actiwyd y dramâu hynny gan 'Gwmni Cenedlaethol' a gychwynnodd ar daith trwy Gymru – taith fforiol y rhoes y Kaiser stop arni ym mis Awst. Roedd i fenter de Walden arwyddocâd diwylliannol diamheuol ac roedd i Rhoscomyl le canolog yn yr ymdrech i ddwyn y Cymry, trwy gyfrwng 'y ddrama newydd', wyneb yn wyneb â'r math o bobol oeddent a'r math o fywyd cenedlaethol yr oeddent yn ei fyw.[13]

---

[11] Papurau Owen Rhoscomyl Ll.G.C.,11.

[12] *The Western Mail*, 23 Aug.1923, 9.

[13] *Codi'r Hen Wlad yn ei Hôl 1850-1914*, 285-315.

Er ei fod dros ei hanner cant oed roedd yn rhaid i Rhoscomyl fynd i ymladd yn erbyn y Kaiser. Cododd drwp o gafalri yng Nghymru ac aeth i Lundain i blagio Kitchener nes iddo ildio a chydnabod y 'Welsh Horse'. Ond ni chafodd Rhoscomyl arwain y gatrawd; roedd ei ddull a'i fodd yn annerbyniol gan 'wŷr mawr' Cymru yr oedd yn well ganddynt roi eu ffydd yn yr Arglwydd Kensington o sir Benfro. Wedi cyrraedd y ffrynt, buan y gwelwyd nad rhyfel i wŷr meirch fyddai'r Rhyfel Mawr, ac ym mis Medi 1915 trosglwyddodd Rhoscomyl, fel Uwchgapten dros dro, i'r '$14^{th}$ Service Battalion, Northumberland Fusiliers.' Yn ddiweddarach ymunodd â'r 'King's Own Yorkshire Light Infantry', ac ar 1 Ionawr 1919 yr oedd ei ddewrder di-ffael, ac yntau'n 56 oed, i ennill iddo'r DSO ac yna'r OBE (Military Division) ym Mehefin yr un flwyddyn. Nid y lleiaf o'i gampau yn y rhyfel echrydus hwnnw, yn ôl Edward James, gohebydd y *Western Mail* yn Llundain, oedd mynd yn 'incognito' ar ran Lloyd George i gael at y gwir am fethiannau'r cadfridogion ar y ffrynt gorllewinol.[14]

Erbyn haf 1919, fodd bynnag, yr oedd gelyn wedi cael gafael arno na allai ef, hyd yn oed, mo'i drechu, ac ar 15 Hydref bu farw o'r cancr mewn cartref nyrsio yn Llundain a'i gladdu mewn rhwysg milwrol, 20 Hydref, yn hen fynwent Y Rhyl. Y Gymraeg oedd iaith ei angladd, y Ddraig Goch a orchuddiai'i arch, a thaniodd trichant o filwyr gwersyll Kinmel deirgwaith dros fedd 'Lt.-Col. A.O.Vaughan, DSO, DCM, OBE.' Rhoes y *Western Mail* gryn amlygrwydd i'w farw ac nid yw hynny'n ddim syndod yn wyneb deinameg y bywyd a ddaethai i ben. Tyfasai'n chwedl yn ei ddydd ac fel pob bywyd o'r fath sy'n gymhleth o ffaith a ffantasi fe erys, ymron canrif wedi'i farw, yn rhyfeddod i'w ddyfalu.[15]

Beth bynnag am hynny, nid oes amau mai efe, a neb arall, oedd yr hanesydd a ddewiswyd i sgriptio 'Rhwysg Hanes Cymru' yn 1909, er gwaetha'r ffaith fod ei ddyfodfa at yr hanes hwnnw mor anghonfensiynol â'i dactegau milwrol. Ni allai stumogi'r syniad mai Brythoniaid gorchfygedig a yrrwyd ar ffo o barthau bras Lloegr gan eu gorchfygwyr Sacsonaidd a roes fod i genedl y Cymry. I'r gwrthwyneb, dadleuai mai concwerwyr Brythonig o'r Hen Ogledd, Cunedda Wledig a'i feibion, a sefydlodd y genedl a'i bod yn ei hanfod yn greadigaeth arwrol. Nid dihangfa i 'Welshmen', eithr mamwlad i Gymry a fuasai Cymru erioed ac fel hanesydd mater o sefydlu ach oedd profi'r gwirionedd hollbwysig hwnnw iddo ef. Rhoes ei ffydd mewn achyddiaeth; roedd y gwir i'w gael yn achau'r Cymry, 'those infernal pedigrees' chwedl J.Glyn Davies, ac fe geisiodd yn *The Matter of Wales* (1913) roi gwedd

---

[14] Bryn Owen, op.cit., 19-45; Papurau Owen Rhoscomyl Ll.G.C., 21.

[15] *The Western Mail*, 16 Oct.1919,7; 20 Oct.1919,5.

ysgolheigaidd i'w ddamcaniaeth – neu fel y barnai ef i'w ddealltwriaeth o hanes Cymru.[16]

Y gwir, fodd bynnag, yw bod gwladgarwch Rhoscomyl yn fwy dibynadwy na'i hanesyddiaeth. Yr hyn a'i gwnaeth yn hanesydd pasiant da iawn oedd ei fod yn rhamantydd diedifar a bleidiai hanes arwrganolog yn unol â gweledigaeth Thomas Carlyle yn *On Heroes, Hero-Worship, and the Heroic in History* (1841). Ac o ran y genadwri y mynnai ef i Basiant 1909 ei rhoi i'r Cymry roedd ei arwyr ef, er colli brwydrau yn erbyn cryfach gelynion, yn para'n anorthrech eu hysbryd. Ymgorfforent arwriaeth ddifarw, arwriaeth a fuasai'n rym er llwyddo'r ymerodraeth ddigyffelyb a fwriodd wraidd ei mawredd yn ystod teyrnasiad y Tuduriaid. Yn 1909 roedd Rhoscomyl am atgoffa'r Cymry o'u tras, o'u gwerthfawredd fel asedion imperialaidd, ac roedd am i'r Saeson gydnabod eu dyled iddynt wedi canrifoedd o'u dibrisio.

Nid bach o beth oedd ei uchelgais ac nid bach o beth fyddai'i lwyfan. Nododd yr Athro Prys Morgan dro'n ôl mai cyndyn fu haneswyr Cymru i annerch cynulleidfa letach na'u cyd-academyddion: 'There is no great apron stage, near the audience, as it were; little or no interpretation of history in strip-cartoons, television historical costume drama, and popular historical novels, for Welsh history.'[17] Roedd hynny nôl yn 1972 ond fe welsai Rhoscomyl yr angen yn 1909 pan ddywedodd: 'Art may call from what lone heights of grandeur it will, it is the fiddler in the market place that folk will go on listening to.'[18] Fe gafodd ef ei 'great apron stage' yng ngerddi Sophia a chast o filoedd, yn wreng a bonedd, i roi bywyd i'r gorffennol. Ni chafwyd dim byd tebyg i 'Rhwysg Hanes Cymru' ers hynny.

Gwladgarwr imperialaidd oedd Rhoscomyl wrth gwrs, a brenhinwr solet. Iddo ef, wedi canrifoedd o frwydro, daethai'r Cymro i'w briod deyrnas pan goronwyd Harri Tudur ar faes Bosworth a phan gydiodd Harri VIII Loegr a Chymru ynghyd yn Neddf Uno 1536. Dros yr undeb hwnnw fe ymladdai Rhoscomyl i'r diwedd, yn unol ag arfer yr haneswyr hynny y dywedodd Dafydd Glyn Jones amdanynt eu bod am fyw i wladgarwch Cymreig a marw, petai raid, dros genedlaetholdeb Seisnig.[19] Y mae'n bur debygol y buasai Rhoscomyl yn genedlaetholwr politicaidd mewn cyfnod diweddarach ond yn 1909 nid ymreolaeth a fynnai i Gymru yn gymaint â pharch iddi a chydnabyddiaeth o'i theilyngdod. Ac iddo ef, amod eu llwyddiant oedd fod y Cymry yn byw fel 'cenedl o bobl ddewrion'. Heb iddynt hwy sythu eu cefnau

[16] Gw.y Rhagymadrodd i'r *National Pageant of Wales ... Book of the Words* (Cardiff, 1909), v-ix; Papurau Owen Rhoscomyl Ll.G.C.,20.

[17] R.Brinley Jones, ed., *Anatomy of Wales* (Cowbridge, 1972), 40.

[18] *The Nationalist*, vol 2, (Oct. 1908), 7-12.

[19] Geraint H.Jenkins, gol., *Cof Cenedl*, XIV (1999), 103.

pa ddisgwyl oedd i estroniaid eu cydnabod? Wrth derfynu *Flame-Bearers of Welsh History* tanlinellodd y genadwri fawr y byddai ef yn ei phregethu hyd y diwedd, gan ei gyrru hyd adref mewn erthyglau yn *The Nationalist* (1907-12) yr oedd y golygydd, T.Marchant Williams, wrth ei fodd yn eu cyhoeddi:

> It is a proud thing still to be a Cymro. Look back on all that your ancestors did and suffered in the centuries you have been reading of and you will see how proud a heritage it is to be descended from such a race of splendid fighters for the right. For, though we seem to have spoken only of the princes, remember always that the princes were only great in so far as they were the true leaders of the people. For a prince cannot do noble things at the head of a people, unless that people be on the side of noble things, and as eager to be led on, to fight and suffer for nobleness, as their leader is to draw them on.[20]

Dyna gred gynhaliol y gŵr y barnai J. Glyn Davies ei fod 'the only thorough paced, out-and-out Welsh patriot I have ever met'; gŵr a oedd wedi'i eni i basianta: 'Rhoscomyl had his very soul in pageantry... He conceived Welsh history as a pageant – all splendour. Ancient brutalities and treacheries had no place in such a pageant... The very name 'Cymru' was sacred to him. Put up that symbol and all the sordidness and meanness that one finds in Wales as in all countries faded clean out of his vision.'[21]

Ar 5 Gorffennaf 1906 ymddangosodd llythyr yn y *Western Mail* yn canmol gwychder Pasiant Warwig. Fe'i hysgrifennwyd gan un o wyrda Caerdydd, y Dr.James Mullin, a'i fyrdwn oedd bod hanes ysblennydd Cymru yn cynnig posibiliadau pasiant di-ail. Dylid creu un ar fyrder. Yr hyn a welsai Mullin yn Warwig oedd pasiant, gwahanol ei gymeriad i basiantau'r oesoedd canol a'r cyfnod Tuduraidd, i ddathlu cyfnod yn hanes swydd Warwig. Pasiant a ysbrydolwyd gan lwyddiant poblogaidd annisgwyl Pasiant Sherborne yn 1905 pan ddathlwyd, yng nghysgod y castell, ddeuddegfed canmlwyddiant y dref, yr ysgol enwog a'r esgobaeth. Roedd naw cant o berfformwyr wedi cael rhan yn y pasiant newyddwedd hwnnw, daethai dros hanner can mil i wylio'r saith perfformiad, ac yng ngeiriau'r *Times*, 'All England took fire'. Am rai blynyddoedd wedyn fe fyddai'r pasiant hanes Edwardaidd, lleol ac amatur yn ei hanfod, yn fawr ei fri, a'r clod am ei ddyfeisio i'w roi i un gŵr – Louis Napoleon Parker (1852-1944).[22]

---

[20] Owen Rhoscomyl, *Flame-Bearers of Welsh History* (Merthyr Tydfil, 1905. School edition), 253.

[21] *The Western Mail*, 4 Feb.1920, 9.

[22] *Dictionary of National Biography, 1941-50*, 651; Robert Withington, *English Pageantry: An Historical Outline*, vol.2 (New York, 1963. Reprinted edition). Gw. y drydedd bennod, 'The Parkerian Pageant', 194-233.

Fe'i ganed yn Normandi, ei fam yn Saesnes a'i dad yn Americanwr crwydrol a oedd oddi cartref pan aned ei fab. Cafodd ei enw gan gymydog o Ffrancwr yr oedd Louis Napoleon yn arwr iddo. Daeth Parker i Lundain yn llanc athrylithgar i'w hyfforddi'n gerddor a chafodd swydd athro yn ysgol Sherborne lle bu'n dysgu cerddoriaeth tan i'w glyw ddechrau dirywio. Troes at y theatr lle'r ymatebodd yr un mor gadarnhaol i ddramâu Ibsen a Maeterlinck ag y gwnaethai i operâu Wagner, a phan ofynnwyd iddo fod yn 'feistr' Pasiant Sherborne fe dderbyniodd yr her. Llwyddodd i'r fath raddau nes cael ei hun yn 'feistr' chwech o'r prif basiantau a drefnwyd rhwng 1905 ac 1909, sef yn ogystâl â Sherborne, Warwig (1906), Bury St. Edmunds (1907), Dofr (1908), Colchester (1909) a Chaer Efrog (1909) – pasiantau a dynnodd rhyngddynt hanner miliwn o wylwyr i ryfeddu at dair mil ar ddeg o berfformwyr.[23] Ac er na bu ganddo ran yn nhrefnu 'Rhwysg Hanes Cymru', y pasiant Parkeraidd heb ddim amheuaeth oedd cynsail y fenter honno hefyd, dim ond i ni beidio ag anghofio un peth hollbwysig – roedd Pasiant Caerdydd, pasiant Rhoscomyl, i fod yn basiant cenedlaethol fel y pwysleisiodd G.P.Hawtrey yn ei ragair i'r *Book of the Words*: 'This is a National, not a local, Pageant; not a Pageant of Cardiff, but a Pageant of Wales. It deals with a history which is very little known, although the materials for it exist in masses.' Fe'i bwriadwyd i ddyrchafu cenedl yn hytrach na chonsurio gorffennol cymuned leol fel y gwnâi pasiantau Parker fel rheol. Mewn tegwch ag ef, fodd bynnag, dylid nodi fod Pasiant Caer Efrog, a rychwantai dalp o hanes Lloegr rhwng 800 C.C. ac 1688, yn ei olwg ef megis drama genedlaethol hefyd: 'Drama lifting our souls to God and our hearts to the King – is not that National Drama?'[24]

I Parker drama, 'folk play', oedd craidd ei basiant ef. Fel rhamantydd a welai'r oes fodern yn tagu pob rhamant y syniai am y gorffennol. 'This modernising spirit', meddai, 'which destroys all loveliness and has no loveliness of its own to put in its place, is the negation of poetry, the negation of romance... this is just precisely the kind of spirit which a properly organised and properly conducted pageant is designed to kill.'[25] Ei ddelfryd oedd gweld gwreng a bonedd mewn cydymdrech wirfoddol, ddemocrataidd yn dathlu eu hanes lleol hwy eu hunain mewn man y gellid ei ystyried, o ran ei gysylltiadau, yn ganolbwynt priodol i'r hanes hwnnw – a'r cyfan yn cael ei wneud heb falio am sicrhau elw ariannol. Disgwyliai i'w berfformwyr hyd yn oed dalu am eu gwisgoedd – neu i'w sicrhau trwy ryw fath o hunanddarpariaeth.

---

[23] Gw. y Rhagair i'r *Book of the York Pageant* (York, 1909).

[24] Robert Withington, op.cit., 196,206.

[25] ibid., 195.

O ran saernïaeth ei basiant, yr unedau sefydlog oedd yr 'episode', a ymdebygai i'r act mewn drama glasurol, a'r 'interlude' a ymdebygai i olygfa o fewn yr act, ac ymffurfiai'r plot o'r hanes 'cyfan' y ceisid cyfleu ei ddeinameg yn episodig. Fel arfer, meddai gohebydd y *Times*, ar ôl gwylio Pasiant Caer Efrog yn 1909, 'Mr.Parker fits a period into an "episode" and within the limits of each episode lets century run into century with scarcely a pause, while between the episodes the narrative chorus supplies and comments on the connecting links.'[26] Yr episod, felly, oedd yr uned lywodraethol, yn olygfa estynedig a danlinellai arwyddocâd rhyw ddigwyddiad arbennig yn hanes gwlad neu le penodol. Yng ngeiriau Robert Withington: 'The "historical exposition" is the soul of the Parkerian Pageant; and, this being the case, the dialogue is important.'[27] Nid digon gweld; roedd rhaid traethu ystyr pob digwydd mewn byr eiriau – byr, noder, gan mai perfformiadau 'al fresco' oedd y pasiantau hyn ac fe fyddai gwrando ar ddialog yn anodd. Yr oedd yn rhaid, felly, fod gan 'feistr' y pasiant afael ar dechnegau theatr a'i galluogai i gyfuno effeithiau gorymdaith, dawns a drama. Ac yr oedd gwybod sut i ddefnyddio cerddoriaeth yn gyfeiliant i amrywiol foddau digwyddiadau'r pasiant yn gymhwyster allweddol. Heb roi gwledd i'r llygad a chynnwrf i'r gwaed ni fyddai'r un pasiant yn deilwng o weledigaeth Louis Napoleon Parker, ac yn sicr ni chyrhaeddai mo'i nod.

Fe âi tair blynedd heibio cyn i lythyr y Dr. James Mullin esgor ar 'Rhwysg Hanes Cymru'. Ar ôl pwl o frwdfrydedd Celtaidd a sôn am greu sioe fythgofiadwy ymhen dim o dro, bu'n rhaid sobri. Nid nad oedd cefnogaeth sicr o du Cyngor dinas Caerdydd , y Cymmrodorion, y *Western Mail* a'r *South Wales Daily News*: 'No race is more alive to the demands of patriotism... When Wales is named, the Welshman thrills with pride. It is not his fault if the nation is not in the van.' Ac eto: 'The glorious history of the Principality set forth as an object lesson could not fail to instil into the minds of the young the higher patriotism that in their forefathers kept Wales a distinct national unity and made her a more powerful factor in Imperial progress because she was true to herself.'[28] Ar 21 Medi 1906, yn dilyn cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Dref a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Faer, yr Henadur Robert Hughes, sefydlwyd pwyllgor dros dro i baratoi cynlluniau drafft ar gyfer cynnal pasiant cenedlaethol yn 1908, ac roedd copïau o'r cynlluniau hynny i'w danfon at deuluoedd hanesyddol Cymru a Mynwy yn ogystal â chynrychiolwyr eraill y genedl, gartref ac oddi cartref, er ceisio'u cefnogaeth ymarferol.[29]

---

26 *The Times*, 22 July 1909,8.
27 Robert Withington, *op.cit.*, 218.
28 *South Wales Daily News*, 21 Aug.1906,4; 22 Sept.1906,6; 26 Sept. 1906,4.
29 *ibid.*, 22 Sept. 1906,6.

Fodd bynnag, nid tan 1 Chwefror 1909, pan oedd y Gronfa Warantedig yn £2,800, y penderfynwyd gweithredu'n bendant. Penodwyd pwyllgor gwaith dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Faer i yrru'r gwaith yn ei flaen, ac ar 1 Chwefror penderfynwyd 'that Mr.G.P.Hawtrey, MA, be appointed Master of the Pageant on the grounds of scholarship and experience of theatrical matters, and as having acted in a similar capacity at the Cheltenham pageant, when a profit of £1,000 was realised.' Sais o'r Saeson oedd George Procter Hawtrey (1847-1910) a gawsai'i addysg yn Eton a Rhydychen, ac fe'i penodwyd yn 'feistr' 'Rhwysg Hanes Cymru' yn dilyn llwyddiant Pasiant Hanes Swydd Gaerloyw er gwaetha'i gyfaddefiad talog 'that my knowledge of Welsh History was not so extensive as to cause me any embarrassment.' Roedd yn llawer rhy gynnar yn 1909 i Gymry Caerdydd, gan gynnwys yr Archdderwydd, Dyfed, yr Arglwydd Faer – yr Henadur Lewis Morgan, yr Henadur Edward Thomas (Cochfarf) a'r Henadur T.W.Thomas (Arlunydd Penygarn), beidio â rhyfeddu at lewyrch Eton a Rhydychen.[30]

Ar 4 Chwefror 1909 aeth Rhoscomyl gerbron Hawtrey a'r pwyllgor gwaith i'w holi ynglŷn â'i gymhwyster i fod yn ddirprwy i'r 'meistr' ac yn hanesydd y Pasiant. Fe ddaeth â geirda T.Marchant Williams o'i blaid: 'He is saturated with knowledge of every phase of Welsh history, and is fully alive to the deep significance and the stirring romance of some of its episodes,'[31] Fe'i penodwyd, ac i E.A.Morphy, broliwr dibrin 'Official Souvenir' y 'National Pageant of Wales', golygai hynny iddynt sicrhau gwasanaeth 'probably the deepest and ablest scholar of Welsh history now living.'[32] Byddai'n dda cael gwybod beth oedd barn O.M.Edwards a J.E Lloyd ar hynny. Fe ofalodd Rhoscomyl, fodd bynnag, ei fod yn diarfogi un ohonynt ymlaen llaw. Ar ddiwrnod ei benodi gyrrodd lythyr at O.M.Edwards yn gofyn iddo a wnâi gefnogi ei gais am bensiwn brenhinol, cais y perswadiwyd ef i'w wneud gan David Lloyd George a T.Marchant Williams, ac yna fe'i hysbysodd iddo dderbyn swydd hanesydd 'Rhwysg Hanes Cymru' ar ôl bodloni ei hun y byddai'n basiant cenedlaethol digamsyniol ('of being National really') a wnâi lwyddo yn artistig ac yn ariannol. Rhagwelai gyflawni gorchest:

> I'm satisfied that it's going to be the biggest thing in Pageants that this Isle of the Mighty has yet seen. I've taken on the Historian's job heart and soul. Keep your eyes on that pageant. There'll be such a burst of demand for Welsh history in Welsh schools as will gladden your heart after it's over. As I'm a sort of a disciple of yours, you'll feel that you've got a finger in that pageant by deputy.[33]

---

30 *The Western Mail*, 2 Feb.1909,5.

31 *ibid.*, 5 Feb. 1909.

32 *National Pageant of Wales. Pictorial and Descriptive Souvenir. Cardiff July 26th – August 7th 1909.* Written and compiled by E.A. Morphy (Cardiff, 1909). Gw. 'The Makers of the Pageant' (tudalennau heb eu rhifo).

33 Papurau Owen Rhoscomyl Ll.G.C., Llythyr at O.M.Edwards, 4 Chwef.1909.

Pa gasgliadau, tybed, y dylid eu tynnu o'r ffaith na welodd O.M.Edwards yn dda i roi sylw i basiant Rhoscomyl yn *Cymru* – y cylchgrawn a wnaethai gymaint er 1891 i boblogeiddio hanes Cymru?

Pan ddaeth hi'n amser perfformio yng ngerddi Sophia, roedd stand i eistedd ugain mil wedi'i godi yng nghysgod castell Caerdydd a chast o bum mil wedi'u paratoi ar gyfer cyflwyno pum episod a dwy interliwd ar hugain – saith ar hugain o sefyllfaoedd yn rhychwantu'r cyfnod o ddyddiau rhyfela Caradog a'i gynghreiriaid yn erbyn y Rhufeiniaid hyd at Ddeddf Uno 1536. Dyluniwyd y gwisgoedd, yn ôl cyfarwyddiadau Rhoscomyl a Hawtrey, rhyw ddeugain mil o ddarnau i gyd, gan gartwnydd rhagorol y *Western Mail*, J.M.Staniforth, crëwr 'Dame Wales' a gafodd neb llai na'r Ardalyddes Bute i'w chynrychioli hi yn y Pasiant, ac fe grewyd y gwisgoedd â chyffelyb ymroddiad llwyr gan dimau o wragedd a merched yn gweithio tair shifft y dydd dros bedwar mis yn y 'Pageant House' – sef adeilad yn Stryd Wharton y rhoddwyd ei fenthyg yn rhad ac am ddim gan James Howell er cyflawni'r gwaith. Ymddiriedwyd y cyfeiliant cerddorol hollbwysig i fand y Royal Marines (Portsmouth Division) dan arweiniad y Lifftenant George Miller, M.V.O., a chynullwyd côr cymysg yn 250 o gantorion mewn 'gwisgoedd cenedlaethol', i warantu soniaredd 'Gwlad y Gân'. Roedd Caerdydd yn ferw erbyn gwawrio 27 Gorffennaf 1909; holai'r 'bright young things' ei gilydd, 'Are you going to page?', a buasai Cochfarf o gwmpas y de yn hawlio cefnogaeth: 'Mae ein cenedl yn dechrau codi ei phen i fyny drwy rym ei hymwybyddiaeth o ddewrder ein cyn-dadau pan yn gwrthsefyll trahausder cenedloedd mwy rhyfelgar a dysgybledig y byd... Wladgarwyr! Dewch i'r wledd! Gofalwch ddwyn eich plant gyda chwi, fel yr ymfalchïont yn hanes gwlad eu genedigaeth dyddiau a ddel!'[34] Ac fe ddaethant yn eu miloedd.

Byddai darllenwyr y *Nationalist* yn gwybod pa drywydd y byddai Rhoscomyl yn siŵr o'i ddilyn. Nid Celtiaid niwlog Ernest Renan a Matthew Arnold mo'i Geltiaid ef; nid y 'mist-wreathed, moon-struck, fish-backed "Arnold – Renan" type'o gwbwl. Aerwyr, 'warriors', oedd ei Geltiaid ef ac yr oedd eu hamser hwy i ddod. Nid oedd eisiau i neb wneud esgusodion dros y Celt: 'He is just feeling his feet once more, and in the race for place he may well breast out first, since he has youth on his side, and youth is the best half of the battle in any long struggle.' Y 'warriors' fu piau'r byd erioed. Gorchwyl Rhoscomyl fyddai argyhoeddi'r Cymry y gallai fod iddynt ddyfodol heb ddibynnu ar Loegr am bob dim. Am yn rhy hir cawsai'r wlad ei thrin 'like a mere back-yard of England', ond gwyddai Rhoscomyl fod gwell amser i ddod:

---

[34] E.A.Morphy, *op.cit.* Gw. 'Rhwysg Hanes Cymru' gan 'Cochfarf'.

> This day of timidity will pass; this day of looking to England for all light is passing already. Our own past will give us a truer light before the play's much older... It will be seen that whatever tends to make Welshmen prouder of themselves as Welshmen; whatever tends to help them to look the other races fearlessly in the eye, is worth spending money on, for without such pride in a race there is no ready and vigorously responsive strength in that race for the statesman to call upon at need, whether the need be one of peace or war.[35]

Y mae'n amlwg fod Rhoscomyl yn synio am 'Rhwysg Hanes Cymru' fel datblygiad pwysig yn y proses seicolegol o adeiladu cenedl.

Ni ellir dweud sawl un o brif gymeriadau'r Pasiant a rannai weledigaeth Rhoscomyl. Ffaith i'w phwysleisio, fodd bynnag, yw i nifer o bendefigion ac urddasolion Cymru ei gefnogi trwy chwarae rhan, yn llythrennol, yn y fenter. Roedd cannoedd lawer o'r cast o bum mil yn blant ysgol Caerdydd – hwy oedd y tylwyth teg yr oedd yn rhaid eu cael i lunio map byw o Gymru ar gyfer y diweddglo 'bythgofiadwy'. Roedd disgwyl i blant ysgol neidio at gyfle i 'wisgo lan'. Ond 'pobol fawr' Cymru! Roedd eu cefnogaeth hwy yn fonws a hanner.

Yn ogystal â'r Ardalydd Bute a'r Ardalyddes, daeth Arglwydd Tredegyr i gymryd rhan Owain Glyndŵr a'r Fonesig Llangatwg ran ei wraig. Daeth aelodau o deuluoedd hanesyddol Mostyn, Scudamore, Hanmer a Basset y Bewpyr i roi stamp 'hanes go iawn' i'r Pasiant. Ymunwyd â hwy gan Williamsiaid Aberpergwm, Maenor Meisgyn a chastell Sain Dunwyd; gan Jonesiaid castell Ffon-mon, Lewisiaid Greenmeadow, Fychaniaid Rheola a Carne y Bontfaen. Pan arweiniodd 'Dame Wales' gynrychiolwyr crand y siroedd allan o'r castell ar ddechrau'r Pasiant, y Fonesig Ninian Crichton Stuart oedd 'Morgannwg'; Mrs. Oliver Jones, castell Ffon-mon oedd 'Brycheiniog'; Miss Sybil Williams, castell Sain Dunwyd oedd 'Ceredigion' a Mrs. Tudor Crawshay o Dimlands, Llanilltud Fawr oedd 'Maesyfed'. Fe fyddai syberwyd 'Rhwysg Hanes Cymru' mewn dwylo da.

Yn ymgorfforiad o urddas sifig cymerodd Arglwydd Faer Caerdydd ran Hywel Dda, a bodlonodd Capten Lindsay, prif gwnstabl Morgannwg, ar fod yn 'Chief Ruffian' er mwyn arddangos grym cyfiawnder cyfraith Hywel. Ychwaneger meirch, cŵn hela a bagad o chwaraewyr rygbi – nifer ohonynt wedi chwarae dros Gymru – i ymosod ar gastell y Norman traws, Gwilym Caerloyw, dan arweiniad Ifor Bach ac roedd cyffro Pasiant Rhoscomyl wedi'i warantu hefyd. Roedd Arglwydd Aberdâr wedi dweud ei fod yn barod i

---

[35] *The Nationalist*, vol.2 (May 1908), 16-20.

ystyried cymryd rhan ei hynafiad, Ifor Bach, ond barnai y dylid gofyn i'r Ardalydd Bute ac Arglwydd Plymouth yn gyntaf am eu bod yn nes 'to the direct Lewis descent.' Ni ddaeth dim o hynny.

Mewn atodiad darluniadol byrlymus, disgrifiodd y *Western Mail* agoriad y Pasiant:

> Bright sunlight , with a glitter of gold and silver and the flash of many colours on a cool, green lawn. Never has Pageant had so brilliant an opening as that of the National Pageant of Wales on July 26th. The events were in keeping with the day. The shilling stands, curiously enough, were almost vacant, but the expensive seats were thronged with fashionable spectators, whose dresses seemed a dim reflection of the gaudy pageantry of the arena. And the performance? Not a single mistake, nor a second's delay. From the beginning to the end the procession of history marched around in perfect order. The great drama of fifteen hundred years of life, crowded with incidents, rich in heroism and romance and glorious in its setting, marched forward with resolution to the grand finale. For the clock of the Pageant, like the clock of the generations whose fleeting years it numbered, neither paused nor stopped.[36]

Roedd y diolch am hynny i'w roi i'r 'meistr', G.P. Hawtrey, a lywiodd y cyfan o'i nyth yr eryr yn y stand gyda chymorth clwstwr o deliffonau a'i cadwai mewn cyswllt â'r cast anferth trwy gydol teirawr y perfformiad. Ond golwg Rhoscomyl ar orffennol arwrol eu gwlad a hoeliodd sylw'r miloedd gwylwyr.

Yn dilyn prolog a welodd 'Dame Wales' yn hawlio Mynwy yn eiddo i Gymru ac yna'n rhoi taw ar ddadlau'r siroedd ynglŷn â phwy oedd piau'r gwahanol arwyr, gan bwysleisio mai dros Gymru yr ymdrechodd pob un ohonynt, roedd yn rhaid dathlu arwriaeth wedyn mewn pum episod a ffurfiai feingefn y Pasiant. Noder fod y dyddiadau ar gyfer yr amrywiol ddigwyddiadau fel y'u pennwyd gan Rhoscomyl. Yn gyntaf, gwelwyd Caradog (c.50 C.C.) yn ceisio cynghrair gyda Rhys, brenin y Siluriaid, yn erbyn y Rhufeiniaid. O glywed fod y gelyn diymatal wedi croesi'r Hafren, gofyn yr Archdderwydd (sef Dyfed), 'A oes heddwch?' 'Rhyfel!' yw'r ateb deirgwaith ac ar unwaith i ffwrdd â'r Celtiaid, yn wŷr a gwragedd arfog, ar ruthr croch i ymladd dros eu gwlad. A dyna nodyn llywodraethol y Pasiant wedi'i daro. Nid grym i gilio rhagddo oedd rhyferthwy ymerodraeth Rhufain ond gormes i'w wrthsefyll.

---

[36] *Pageant Pictures from the Western Mail.* Atodiad (di-ddyddiad), 2.

Yn ail, coronwyd Arthur (c.51 O.C.) yn frenin gan Myrddin (Ifano Jones, y llyfrgellydd) – Arthur Fawr, y concwerwr difarw y dywedwyd iddo drechu Rhufain ei hun ac a ddaeth i lawr i'r ugeinfed ganrif yn ffigur mytholegol cawraidd o arwyddocâd byd-eang. Yn drydydd, daeth Hywel Dda a'i wŷr (c.943) i arbed merched teg dyffryn Tywi rhag trais y 'Ruffians' ac adfer cyfraith a threfn i'r tir. Ymladdasai'r Cymry dros gyfiawnder erioed ac yr oedd y pwynt i'w wneud hyd yn oed yn fwy nerthol yn y pedwerydd episod pan ymosododd Ifor Bach, arglwydd Senghennydd (c.1158) ar gastell y Norman, Gwilym Caerloyw, a'i orfodi i heddychu. Castell y Norman, y sumbol hwnnw o drahauster militaraidd didrugaredd – ac fe'i cipiwyd gan Ifor Bach a 'gwŷr y fro'. Ac yn olaf, wele 'Fluellen', yn ymgorfforiad Shakespearaidd o lewder y Cymro yng ngwasanaeth brenin Lloegr, yn cystwyo Pistol â'i genhinen ar faes brwydr Agincourt (1415) am iddo sarhau ei genedl! Ac yn dâl am ei deyrngarwch yn cael atgoffa Harri V o'i dras Gymreig a chlywed y brenin yn ei harddel yn falch. Stroc a hanner oedd gwysio Shakespeare, arch - ddyrchafwr y Saeson, i dystio dros deilyngdod y Cymry yn episod olaf y Pasiant.

Barnai'r *Western Mail* fod effeithiau'r episodau hyn yn ddiwrthdro o'r foment y rhuthrodd y Siluriaid i wynebu'r Rhufeiniaid, 'making every responsive heart thrill with patriotic delight in the heroism of the ancient days.'[7] Roedd cyffro episod Hywel Dda yn sicr o aros yn y cof:

> Salvator Rosa has never peopled an immortal canvas with outlaws so convincing as that wild mob of which Captain Lionel Lindsay, in the guise of chief ruffian, was the leader... and the flight of women and the wild rush of horsemen gave to the scene a degree of very remarkable realism.

Ond o bob uchafbwynt, episod Ifor Bach a aeth â hi:

> The story of Ivor Bach, makes a stirring appeal to the popular imagination, and interest in the Pageant episode is increased by the fact that Mr R. Lewis, who takes the part of Ivor, can claim descent from the hero, and that his famous men are amongst the leading footballers of Wales, fleet-footed, therefore, to make the rush which carried the castle of Cardiff by storm.

Daliwyd y gynulleidfa gan fwrlwm y digwyddiad: 'There was all the pomp and glory of baronial splendour about the surroundings; all the lofty Norman

contempt for a conquered race about the treatment of the clansmen. The thing had gone beyond endurance.' Roedd y cyfan ar dân gan ymladdgaredd Rhoscomyl ei hun: 'The whole episode from beginning to end was of a most dramatic and thrilling kind, and it is one which no other Pageant is likely to equal.[37]

Dilynwyd pob episod gan interliwd, yn glystyrau o olygfeydd byr, rhwng pedair a chwech yn ôl y gofyn, i yrru'r Pasiant yn ei flaen heb yr un 'longuer'. Ar ôl episod Caradog gwelwyd sefydlu Caerdydd (c.60 O.C.) gan y Rhufeiniaid; cyhoeddi Macsen Wledig (380) yn ymerawdwr Rhufain; dyfodiad tyngedfennol Gwrtheyrn a Cunedda (449); a dechrau gwladychu Cymru gan feibion Cunedda (c.475). Wedi episod Arthur Fawr daeth yr ail don o'r Hen Ogledd (c.550) ac yna'r drydedd (c.575) i wladychu Cymru, gan ddwyn y Gristnogaeth gyda hwy; gwelwyd Cymru wedyn yn ymffurfio'n wlad Gatholig (778); ac yn bedwerydd darluniwyd grym Rhodri Mawr a'i saith mab (875). Yn dilyn episod Hywel Dda fe ddathlwyd, yn gyntaf, ddewrder Gruffydd ap Llywelyn (c.1050) a fu'n dywysog Cymru gyfan am gyfnod byr; yna, daeth y Normaniaid i Forgannwg (c.1092) ac yn yr ail a'r drydedd olygfa dwy ferch o'r un enw – Nest, ferch Iestyn ap Gwrgant a Nest, ferch Rhys ap Tewdwr, yr enwog 'femme fatale', oedd piau'r llwyfan; yn bedwerydd, croesawyd y tri ysgolor – Sieffre o Fynwy, Gwallter Map a Gerallt Gymro i lys y noddwr ysblennydd, Robert Consul, Iarll Caerloyw a Thywysog Morgannwg, yn ei gastell yng Nghaerdydd; ac yn bumed darluniwyd arwriaeth Gwenllian ac awch dialwyr ei sarhad.

Wedi berw episod Ifor Bach byddai'n rhaid wrth glwstwr o olygfeydd trawiadol yn yr interliwd i ddal gafael ar y gynulleidfa. Ac fe'u cafwyd. Yn gyntaf, gwelwyd Llywelyn Fawr (1215) yn y Bewpyr ym Morgannwg yn cael gan arglwyddi'r Mers warantu ei statws a'i hawliau yn ôl fel y cytunwyd arnynt wrth lunio'r 'Magna Carta'; yn ail, â dafn o waed ar dalcen pob un ohonynt, cerddodd Llywelyn y Llyw Olaf a'r deunaw glew a syrthiodd ar Bont Orewyn, heibio i'r miloedd bloesg yn y stand heb yngan gair; gyda'u diflannu hwy daeth Dafydd ap Gwilym i ddawnsio'n nwyfus gyda'r cariadon y blysiodd eu awen amdanynt; ac yn y bedwaredd golygfa orfoleddus daeth Glyndŵr, ym mherson Arglwydd Tredegyr, i'w gyhoeddi'n Dywysog Cymru ar 16 Medi 1400 (er mai 20 Medi oedd dewis ddyddiad y *Book of the Words!*)

Doedd dim, wedyn, ar ôl i'w wneud yn yr interliwd olaf wedi i 'Fluellen' sefyll dros Gymru ar faes Agincourt ond symud ymlaen yn anorfod at ddyrchafiad y genedl gan y Tuduriaid. Yn gyntaf, wrth ddawnsio 'pavane' yn y llys fe syrthiodd Owen Tudur i gôl Catherine, gweddw Harri V, gan

---

[37] *ibid.*, 3.

ddechrau carwriaeth a oedd i arwain at briodas y tarddai'r frenhinllin Duduraidd ohoni. Yn ail, ar faes Bosworth, 22 Awst 1485, gwelwyd Harri Tudur â'r goron ar ei ben yn rhoi ei gleddyf i Richard ap Howel Mostyn yn gydnabyddiaeth o'i ddyled i'r Cymry a ymladdasai drosto. Ac yn drydydd, dangoswyd Syr John Pryce a'r Esgob Rowland Lee wedi dod i Lwydlo yn 1536 i gyflwyno petisiwn i Harri VIII yn gofyn iddo am ddeddf i uno Cymru â Lloegr. Geiriau'r brenin, 'Here is the Act of Union between England and Wales for ever', oedd geiriau olaf 'Rhwysg Hanes Cymru' ac yn ôl fel y deallai Rhoscomyl hanes y genedl cyhoeddent ddechreuad y dyfodol yr oedd wedi'i hir haeddu: 'General shout of joy. Bells peal out, and in the midst of the uproar, HENRY LEADS OFF.'

Rhwng miwsig y band a chanu'r côr, ynghyd â phresenoldeb disgynyddion rhai o'r ffigurau hanesyddol – yn enwedig aelodau o deuluoedd Scudamore a Hanmer yng ngolygfa cyhoeddi Glyndŵr yn Dywysog Cymru a'r Arglwydd Mostyn ei hun yng ngolygfa coroni Harri Tudur ar faes Bosworth – fe gawsai'r gynulleidfa fodd i fyw. Wedi i Dewi Sant ym mherson ficer Aberpergwm, ddwyn y Gristnogaeth i blith y paganiaid, cododd y côr i ganu'r 'Hallelujah Chorus' i gyfeiliant y band, a safodd llond y stand yn addolgar gyda hwy. Pan gerddodd y Llyw Olaf a'r 'deunaw distaw' heibio iddynt, barnai'r *Western Mail* fod boneddigesau'n wylo a gên sawl gŵr barfog yn crynu gan deimlad. Cyffrowyd Llewelyn Williams, AS, gan y 'commemorative tableau' hwn: 'sad in the extreme, and unaided by any extraneous details, the march of the last Welsh Prince and his men is a striking silhouette which always comes in for the applause of the public.'[38] Ond ar amrantiad wele Dafydd ap Gwilym a'i gariadon mewn 'pale heliotrope gowns', yn dawnsio 'a "pas de vingt-et-un" which is most alluring to gaze upon'. Roedd lle i ofni fod rhai o gerddi Dafydd 'rather too rich to be considered quite delicate from a modern point of view', ond roedd dawns Dafydd y Pasiant gyda dau ddwsin o 'the most beautiful women among the schoolteachers of Cardiff' yn ddi-fai:

> They Dance delightfully; then group themselves adoringly round him, and when he has postured poet-wise a little, he flees man-wise from their embarrassing affection.[39]

Chwedl Ifans y Tryc, 'Scarcely believe!'

Ac am ymddangosiad Glyndŵr ym mherson Arglwydd Tredegyr nid oedd modd gor-ddweud. Glyndŵr oedd y pennaf o arwyr poblogaidd y genedl ac yn Arglwydd Tredegyr, y Cymro glew a hygar, cafwyd i'w gynrychioli 'a man

---

[38] *The Western Mail*, 27 July 1909, 11.
[39] *The Times*, 27 July 1909, 13.

who in culture and courage comes close to the ideal conception of Glyndwr.' Flwyddyn ynghynt, yn haf 1908, daethai David Lloyd George, a hoffai synio mai Glyndŵr oedd 'Bonnie Prince Charlie Cymru', â'r gŵr yr oedd yr Ail Ryfel Byd i'w wneud yn arch-arwr y Saeson, i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llangollen – neb llai na Winston Spencer Churchill. Ond nid oedd ei ymweliad ef â'r brifwyl yn 1908 yn ddim o'i gymharu ag ymddangosiad Arglwydd Tredegyr yn rhith Glyndŵr ym Mhasiant 1909. Cododd pawb yn y stand i'w gyfarch â bonllefau o gymeradwyaeth a hoeliwyd pob llygad arno tra parhaodd yr olygfa:

> It was a short, but a very thrilling, scene, and the spectators cheered again and again when the standard bearer, at the bidding of Glyndwr, shook out the banner of the Prince of Wales and then the old war flag of the Cymry. Not for long will one forget the gay cavalcade of colour, the mail-clad knights, and the beautiful robes of the ladies, and over all the banners of Wales floating triumphantly in the breezes, as Owain Glyndwr led the way to the exit.[40]

Fe dalodd presenoldeb Arglwydd Tredegyr ar ei ganfed i hyrwyddwyr y Pasiant.

Y cyfan oedd ei eisiau i sicrhau llwyddiant ysgubol oedd diweddglo cofiadwy o effeithiol a'r farn gyffredinol oedd i G.P.Hawtrey daro deuddeg. Yr oedd yn naturiol i'r *Western Mail* a'r *South Wales Daily News*, fel papurau Caerdydd, frolio'r holl fenter o'r cychwyn ond ni raid amau i'r Pasiant greu argraff ffafriol iawn ar drwch mawr y miloedd a dyrrodd i erddi Sophia yn ystod y pythefnos o 'chronological chaos' a brofodd y ddinas rhwng 26 Gorffennaf – 7Awst 1909. Ac y mae'n deg dweud fod disgrifiad y *Western Mail* o'r diweddglo yn cyfleu'r syndod pleserus, ie, a'r balchder a deimlai'r torfeydd wrth i'w teirawr o adfyw'r gorffennol ddod i ben:

> All the characters who had taken part in the Pageant marched past the stand. There were five thousand or more, and they made a brave show, with their costumes, their flashing armour and jewels, and gaily fluttering banners. Here were the comings and the goings of the generations of Wales, peopling a canvas filled with a loftier romance and a fuller atmosphere than was ever painted even by a Turner. It was all 'a hallow'd memory like the names of old', and about it floated eddies of melodious airs that carried us back to the Wales of the fighting men and the Wales of the mourners, and, anon, to the Wales of rural peace. The procession left on one's mind the

---

40 *Pageant Pictures from the Western Mail*, 3.

> impression of a nation rich in colour and poetry, renowned in arms, famous in romance. When the procession was over and the performers ranged in front of the grandstand, Dame Wales once more emerged from the Castle attended by the Counties. To each County flocked the fairies, and the groups spun out in lines forming a map of Wales in many colours. Simultaneously, the Pageant performers, who formed a brilliant background to the closing scene, sank to their knees, and 'Hen Wlad fy Nhadau' rose from the vast throng – a thrilling and a splendid close.[41]

Fel y dywedodd Edward Baring, 'meistr' Pasiant Caerfaddon, buasai'n werth dod i Gaerdydd petai'n unig i weld y diweddglo. Ond yr oedd y cyfan yn rhagorol: 'It is simply magnificent'.

Cawodwyd clodydd ar G.P. Hawtrey, Rhoscomyl, ac A.W.Swash, ysgrifennydd y Pasiant. Mynegodd Hawtrey ei fodlonrwydd yn *The Nationalist*, gan ddiolch i'r cast anferth am ymddiried mewn 'Autocratic Brute' o Sais a sicrhau 'such a display that has never been seen in this country before.'[42] Gwyddai'r Arglwydd Faer iddynt sgorio buddugoliaeth genedlaethol: 'we have beaten the world at football, and now we have beaten the world, also, at pageantry. I thank you.' Yn syml, roedd y Pasiant i'w restru gyda gorchest Côr Caradog yn 1872-3 a darostyngiad y Crysau Duon yn 1905 fel y trydydd prawf o ddadeni Cymru. Roedd un o drioedd gogoniant y Gymru fodern nawr yn gyflawn.

Mae'n wir na ddaethai neb o'r teulu brenhinol i roi geirda i'r sioe, ond fe ddaeth Arglwydd Faer Llundain, Syr George Wyatt Truscott, ynghyd â'i wraig, i Ginio gorwych yn Neuadd y Ddinas ar ddydd Sadwrn, 31 Gorffennaf. Yno i'w groesawu ynghyd ag Arglwydd Faer Caerdydd, roedd meiri a meiresi Casnewydd, Trefynwy, Y Fenni, Merthyr Tudful, Aberdâr, Aberafan, Castell-nedd, Y Bontfaen, Aberhonddu, Caerfyrddin, Cydweli, Hwlffordd, Penfro, Aberteifi, Y Trallwng a Wrecsam, a chawsant glywed Syr George yn ymfalchïo mai gŵr o Gernyw ydoedd a chlywed ganddo 'a paean of unqualified praise' i'r Pasiant. Nid oedd gwlad dan haul yr oedd ei hanes mor llawn o ramant a swyn.

Ond nid oedd Rhoscomyl yn fodlon. Er na welwyd mantolen derfynol rhaid casglu o eiriau Hawtrey ei hun na thalodd mo'r Pasiant yn ariannol. Buasai darogan elw o rhwng chwech a deng mil o bunnoedd i'w wario ar achosion da,

---

41 *ibid.*, 4.

42 *The Nationalist*, vol.3 (Oct.1909), 8-15.

ond yn ofer. Dywedwyd fod cyfanswm y costau gymaint ag £16,000 ond ni welwyd prawf o hynny mewn du a gwyn. Y mae llythyr gan Rhoscomyl at J.Glyn Davies, fodd bynnag, yn ddigon o brawf nad oedd ef a Hawtrey ar delerau da â'i gilydd. Yn wir, barnai Rhoscomyl mai ei hunan-les oedd gofal pennaf Hawtrey:

> As to the Pageant it would have been a record forever if only Hawtrey had been even a fairly average man, instead of the impossible beggar he was. Privately, he was 'on the make', and had no more sense of truth, honour, or common honesty than an old fox in the gorse.[43]

Os cafodd Hawtrey y bartneriaeth yn un anodd ni chyhoeddodd air yn erbyn Rhoscomyl – onid ydym i glywed lled awgrym o ddiflastod yn ei ragair i'r *Book of the Words* lle dywedodd, 'So far as I am concerned, the combination has been a most happy one.' Mewn tegwch ag ef nid oedd Rhoscomyl, hyd yn oed, yn barod i'w gyhuddo'n gyhoeddus o anonestrwydd ond yr oedd yn fwy na pharod i hawlio'r clod am arbed y Pasiant rhag ei fwnglerwch. Yr oedd y gwahanol bwyllgorau a fu wrthi'n paratoi, ar ôl gweld trwy Hawtrey wedi troi ato ef, Rhoscomyl, i ddwyn y gwaith i ben, ac wrth gwrs fe wnaethai ef hynny fel 'warrior' di-feth:

> When right and left the men were cracking up and the women breaking down in hysterics, I got to bed twice a week, five hours each time. How they cursed Hawtrey then![44]

Yr unig beth y gellir ei ddweud wrth hyn i gyd yw na bu lladd ar Hawtrey yn y wasg. I'r gwrthwyneb, ni chafodd ond clod. Fe dâl cofio mai pethau i'w difa fu 'gelynion' i Rhoscomyl ar hyd ei oes, ac fel y dywedodd J.Glyn Davies: 'Men of action are disconcerting beings, and Rhoscomyl was cyclonic.'

Mwy diddorol nag ariangarwch honedig Hawtrey yw ei ddylanwad tebygol ar strwythur y Pasiant – os nad ei ymyrraeth anwybodus ym marn Rhoscomyl. I Hawtrey fe fyddai canlyniad eu partneriaeth, er gwell neu er gwaeth, i'w weld yn eu gwaith ' for which we are conjointly responsible', ond protestiodd Rhoscomyl mewn llythyr at J.Glyn Davies nad yr un a sgriptiodd ef, heb sôn am yr un y syniai amdano'n wreiddiol, oedd 'Rhwysg Hanes Cymru'. Serch

---

43 Papurau Owen Rhoscomyl Ll.G.C., 10 (Llythyr at J.Glyn Davies, 4 Sept. (1909).

44 *ibid.*

hynny, ni ragwelai neb yn rhagori arno tan y gwnâi ef hynny, yn Abertawe, y flwyddyn ddilynol.[45] Yn ôl adroddiad yn y *Western Mail*,[46] Hawtrey a fynnodd gynnwys Hywel Dda, Ifor Bach, Gwenllian, Llywelyn Fawr, 'Fluellen' a Harri Tudur – ac y mae'n rhaid mai ar ôl astudio awgrymiadau Rhoscomyl y gwnaeth hynny o gofio iddo ef gyfaddef na wyddai ddim am hanes Cymru. A dymherodd y Sais a fu yn Eton a Rhydychen awch milwrol Rhoscomyl? Pe cawsai ef ei ffordd tybed beth fuasai'r gwahaniaeth. Ai pasiant heb elfennau pathetig? Ai mwy o le i'r 'warriors'? Ai episod i frwydr ar Bont Orewyn a thranc Llywelyn y Llyw Olaf? Ai episod, heb os, i ddyrchafu clodydd Glyndŵr y milwr? Heb lasbrint bwriadau gwreiddiol Rhoscomyl does ond dyfalu. Yr hyn na raid ei amau am ennyd yw mai'r un fuasai ei genadwri. Trwy ymladd, yn ystyr ehangaf y gair, y gallai'r Cymry haeddu a hawlio lle teilwng ohonynt yn y byd ac mae'n fwy na thebyg mai darlunio'r gwirionedd hwnnw'n fwy ymosodol nag a wnaed yn 1909, a wnaethai yn 1910. Breuddwyd gwrach, wrth gwrs, oedd breuddwydio am gynnal pasiant arall yn Abertawe ymhen blwyddyn ar ôl ymdrech enfawr Caerdydd – ond fe gafodd Arwisgiad yng Nghaernarfon yn 1911!

Y gwir yw, er cymaint pwyslais a roed ar gwmpas 'cenedlaethol' Pasiant 1909, ni thaniodd ddychymyg Cymru gyfan. Y rheswm pam fod rhaid dyfynnu o bapurau Saesneg i gyfleu cyffro'r fenter yw na roes y wasg Gymraeg fawr ddim sylw iddi. Yn y gorllewin a'r gogledd fe'i gwelwyd, yn amlwg, fel sioe'r de Seisnigedig ac y mae'n arwyddocaol cyn lleied o feiri a meiresi y Gymru Gymraeg a aeth i Gaerdydd i giniawa gydag Arglwydd Faer Llundain. Roedd yr hen, hen bellter rhwng Caernarfon a Chaerdydd, pellter drwgdybiaeth yn fwy o lawer na phellter milltiroedd, yn dal yn rhwystr solet i dwf ymwybyddiaeth genedlaethol yn 1909, ac nid yw eto wedi'i bontio fel y prawf colofnau llythyrau'r wasg Gymraeg a Saesneg yn 2006. Rhaid derbyn, hefyd, na welwyd yn sgil Pasiant 1909 y ffrwydriad mewn diddordeb yn hanes Cymru, mewn ysgol a choleg, y disgwyliai gwŷr megis T.Marchant Williams, Edward Thomas (Cochfarf), T.W. Thomas (Arlunydd Penygarn), W. Llewelyn Williams, AS, Tom John, MA ac A.T. Davies, ysgrifennydd Adran Gymreig y Bwrdd Addysg, yn orhyderus amdano. Hanes Lloegr, a gamenwid yn hanes Prydain, a fyddai'n teyrnasu yn ysgolion a cholegau Cymru am ddegawdau i ddod ac ymhen dim fe fyddai cannoedd o filoedd o Gymry yn ymladd dros yr Ymerodraeth megis 'Fluellen' ar faes Agincourt a Richard ap Howel Mostyn ar faes Bosworth. Ni ofynnent am wobr amgen na chael eu gwasanaeth i'r goron, eu teyrngarwch a'u milwriaeth, wedi'u cydnabod – a diolch i David Lloyd George fe gydnabuwyd eu gwerth am ryw hyd.

---

[45] *ibid.*

[46] *The Western Mail*, 5 Feb. 1909.

Yn wir, pan ddarfu am gynnwrf 'Rhwysg Hanes Cymru' ar 7 Awst 1909, gobaith mwyaf y *Western Mail* oedd fod rhan 'Hen Walia' yng ngogoniant ymerodrol 'Old England' wedi'i brofi, fod teirawr o basianta wedi dangos sut yr aeth y ddwy wlad yn 'one harmonious whole'. Siawns na châi Cymru chwarae teg bellach:

> Wales has never yet been allotted by historians her due share in our island story. Will the Pageant change all that? Will it impress upon historians who dismiss Wales with an occasional reference that the Principality has played a considerable part in directing the destinies of Great Britain. At all events, nobody could have watched the Pageant unfolding itself... without feeling that here was a vital, but only half-known and half-understood, part of the history of the Empire.[47]

Gellir yn hawdd ddychmygu boddhad Rhoscomyl wrth ddarllen geiriau'r *Western Mail.*

O safbwynt cenedlaetholdeb Cymru 2006, gellir yr un mor hawdd ymwrthod â Phasiant 1909 fel enghraifft drist o ddefnyddio hanes cenedl fach i ennill ffafor cenedl fwy, a chael Rhoscomyl, 'Old Fireproof', yn euog o ffalsio. Gwneud cam â Rhoscomyl o ran ei fater yn ei ddydd a'i oes fyddai hynny. Er cymaint o filitarydd Prydeingar, imperialaidd ydoedd, nid oes amau ei gred yng ngallu'r Cymry i drefnu eu tŷ eu hunain. Ac yr oedd yn sicr o du'r goleuni wrth bwysleisio fod gwybod am ei hanes, a'i amgyffred, yn amod twf cenedl iach. Y mae'n siŵr fod ei fethodoleg fel hanesydd yn annerbyniol gan haneswyr yr oes hon ond y mae i'w ganmol am weld gwerth y llwyfan mawr poblogaidd, llwyfan i'r 'demos' gael arno ymgydnabod â'u hanes. A'r un gweld sy'n cyfrif am ei lafur yn 1914 dros fudiad drama Howard de Walden – gweld fod theatr a drama heriol yn anhepgorion diwylliant cynhaliol.

Wedi'i farw, rhoes Howard de Walden arian i Brifysgol Lerpwl sefydlu cymrodoriaeth 'for the study of the oldest Welsh genealogies begun by the late Col. A.O. Vaughan, D.S.O.' Cyfrannodd hefyd at godi'r groes Geltaidd ar ei

---

[47] ibid., 7 Aug. 1909, 6. Cymharer â geiriau Rhoscomyl yn *The Book of the Investiture* (Cardiff, 1911): 'The Ceremony at Carnarvon will be for a mark to all the world that Wales is a special country in the Empire, with a proud past behind her, and a prouder future ahead, if we do but continue to work for her, resolved to bring her to the front in the Empire; to make her a land to which the Empire may look for help and strength in the hour of temptation and in the day of danger. Cymru am byth!'



*Owen Rhoscomyl yn 2006*

fedd yn hen fynwent Y Rhyl – y groes y mae gennyf bellach trwy garedigrwydd Mr. Ken Kyffin (sy'n un o'r Cymmrodorion wrth gwrs) lun ohoni fel y gwelodd ef hi yn haf 2006. Y mae hi'n awr yn gwyro tua'r llawr a'r sylw hawsaf arni yw dweud ei bod hi'n dyst o ormes angof.[48]

Ond tybed nad yw hi'n sumboleiddio rhywbeth llawer pwysicach, sef ein harafwch ni'r Cymry o hyd i wneud ein hanes ar wastad poblogaidd yn beth byw, dramatig ac adeiladol. Heb selogion Cilmeri a Llysgenhadaeth Glyndŵr fe fyddai'n dlawd arnom – nid mor dlawd ag ydoedd yn 1886 pan fynegodd y Dr.Isambard Owen ei farn ar ddirmyg y gyfundrefn addysg at hanes Cymru, ond tlawd, serch hynny, pan feddyliwn am ein holl adnoddau cyfoes, yn llu o astudiaethau rhagorol a chyfryngau cyfathrebu sy'n ymylu ar y gwyrthiol. Mae mwy na digon o ddefnyddiau i'w cael yng nghyfres *Cof Cenedl* yn unig. Ond ble mae'n Rhoscomyl cyfoes?

---

48 *The Western Mail*, 4 Feb. 1920,6; 24 Nov. 1928,8.

Fe fyddai'n wych cael Pasiant yn 2009 i gydnabod menter 1909 a dwyn cast anferth ynghyd unwaith eto i gynnig golwg arall ar ein hanes. A'r tro hwn fe ddylid ei leoli yng Nghaernarfon gyda chastell Edward I yn ffocws iddo. Ar ôl gorymdeithio deirgwaith ar Ddydd Gŵyl Dewi trwy ddifaterwch ein prifddinas, byddai'n well galw heddiw ar werin Gwynedd i ddathlu'r cof am Basiant 1909, ysbryd Glyndŵr a feitaliti Owen Rhoscomyl. Deugain mlynedd ar ôl sioe fechan 1969 byddai'n braf cael sioe fawr wladgarol o fewn muriau'r hen gastell a godwyd 'i'n cadw ni lawr' – Pasiant arall, jyst i glirio'r aer.

*This article outlines the staging of 'The National Pageant of Wales' in Sophia Gardens, Cardiff, during the summer of 1909. The festivity should be viewed in the context of a series of pageants got up in various parts of England in the decade preceding the First World War, enterprises fashioned in the main by Louis Napoleon Parker (1852-1944) for the celebration of English history at a 'local' level. The Cardiff venture was produced and directed by an old Etonian, G.P.Hawtrey (1847-1910), but it was scripted by one of the most thrustful Welshmen of his day, Robert Scourfield Mills (alias Arthur Owen Vaughan, Owen Rhoscomyl, 1863-1919), adventurer, militarist, romantic historian and patriot intent on securing for Wales due recognition for its part in the triumph of British imperialism. At a time when it was felt by many that Welsh history was a dead letter for the vast majority of the people, the staging of a 'National' pageant, presenting a version of Welsh history ranging from Caradog's fight agains the Romans to the Act of Union with England in 1536, aroused much excitement. It was Welsh history as portrayed by a man who first and foremost conceived of the Celts as warriors, and hero-worshipped Owen Glyndŵr. It was readily supported by the Marquess and Marchioness of Bute; Lord Tredegar, one of the heroes of 'the Charge of the Light Brigade', played Glyndŵr, the Lord mayor of Cardiff played Hywel Dda, and sundry other worthies joined a cast of between four and five thousand enthusiasts to make 'The National Pageant of Wales' an unique attempt to popularize and reconnect the people with their history at a time when Welsh national consciousness seemed a thing of shreds and patches. Seen in the context of early twentieth-century attemps to breathe new life into Welsh historiography, there is no denying the significance of Rhoscomyl's extravaganza in 1909.*